

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 6ed o Fehefin, 2019 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 2ail o Fai 2019.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mai 2019 gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion.
5. Angen i'r Is-gadeirydd newydd lofnodi datganiad derbyn swydd Is-gadeirydd.

Ar y rhaglen.

6. Datgan buddiant personol.
7. Cyngor Gwynedd.
  - a. Peiriannydd Ardal Dwyfor - '**Bron Eifion Fisheries**' am Llanystumdwy - ail wynebu lon - am oddeutu 3 diwrnod.
  - b. Lodge Talhenbont - **Pont Rhydycroesau** - Plas Hen Lodge ger Pont Rhydycroesau - Ysgubor Hen - gwaith i gychwyn 03.06.2019 - ailwynebu lon am oddeutu 10 diwrnod - oedi hir yn debygol.
  - c. **Uwch Reolwr Ysgolion** - eisiau cynrychiolaeth ar gyfer Panel Apél Mynediad a Phanel Apél Gwaharddiad Disgyblion, oherwydd fod yr enwau wedi mynd yn hynod o brin. Maent angen enwebiadau gan unigolion lleyg a chan lywodraethwyr ysgolion. Pwysleisir na all aelodau etholedig Cyngor Gwynedd wasanaethu fel aelod ar y panel yma nag unrhyw un sy'n gyflogedig gan Gyngor Gwynedd.
  - d. **Cytundeb Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy**  
Y Clerc wedi derbyn copi o gytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned ar gyfer 2019 - 2021, a bod y Cyngor yn talu £2,000.00 i Gyngor Gwynedd bob blwyddyn.
  - e. **Llwybr Traeth Afonwen o dan y bont reilffordd a Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa**  
- canclwm siapaneaidd - y Clerc wedi hysbysu Swyddog Llwybrau y Cyngor.
  - f. **Postyn giât** llwybr troed ochr Llanystumdwy gyferbyn ag Abercin wedi syrthio - Clerc wedi anfon llythyr at y Swyddog Llwybrau.

## 8. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned

Cais Rhif C19/0425/41/LL – cais llawn i newid defnydd tir amaethyddol presennol i ffurfio estyniad i'r fynwent. -Tir ger Mynwent Chwilog.

9. Lwfansau Cynghorydd rhwng 1af o Ebrill 2019 – 31ain o Fawrth 2020, - angen i bob Cynghorydd lofnodi'r ffurflen os am gymryd neu wrthod y lwfans.

## 10. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

**Mainc** ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain.

Y Clerc wedi archebu 2 fainc (un i Chwilog) a bydd yn cael ei danfon i Cybi Cyf. 04.06.2019, yna gobeithir y bydd yn cael ei gosod yn fuan.

Mainc ddur, fel ag y cytunwyd yn ein cyfarfod diwethaf, gan gwmni David Ogilvy Engineering, sef mainc Anti-Vandal KC mewn lliw du.

1800 mm mewn hyd yn £693.00 + TAW (5.9")

Pris ar gyfer danfon dwy fainc yw:- £190.00 + TAW

**Tyfiant ar y gongl wrth droi am Llanystumdwy**

Y Clerc wedi trafod hefo Cyngor Gwynedd, ac maent wedi trefnu i dorri y lle gwaethaf am rwan, tan y bydd yn cael ei dorri i gyd.

**Bin baw cwn** – ymholiad gan aelod o'r cyhoedd yn ein cyfarfod diwethaf. Son fod baw cwn i'w weld ar hyd y lon ger Tyddyn Sianel i lawr am y pentref. **Y Clerc wedi gwneud ymholiadau, ac mae bin baw cwn yn y maes carafannu yn barod, angen trafod y mater.**

- Rhoslan /Ynys

**Pont Rhydybenllig**-ymholiad yn hysbysu'r Clerc fod rhywun/rhywbeth wedi mynd i fewn i bont Rhydybenllig, o ochr Hen Felin, a fod y wal wedi dymchwel i fewn i'r cae. Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn syth, ac roeddent wedi pasio'r mater i'r adran yn delio hefo pontydd, ond yn dal i ddisgwyl ymateb, wedi cysylltu hefo nhw eto.

Chwilog

- Mainc newydd yng nghanol Chwilog- y fainc yn cyrraedd 04.06.19, a bydd yn cael ei gosod gan Cybi Cyf., cyn gynted a phosibl.

**Llwybr troed o Chwilog i Afonwen**

Clerc wedi derbyn dau ymholiad ynglyn â chael llwybr troed rhwng 'Ocean Heights', Chwilog i Afonwen. Roedd yn dweud byddai palmant o Ocean Heights i Afonwen (mae eisoes balmant hyd at Ocean Heights) yn cysylltu y pentref gyda threfi Cricieth a Phwllheli a rhoi milltiroedd maith o lwybr cerdded i breswylwyr y pentref.

Dywedwyd fod nifer o rieni yn y pentref o'r un farn, ac y byddai'n fodlon trefnu i

gasglu enwau petai hynny o gymorth. **Y Clerc wedi anfon llythyr i Adran**

**Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd i holi os oedd hyn yn bosib ac wedi gofyn wrth y**

## rhiant o'r pentref i gasglu enwau er mwyn i'r Clerc ei anfon i gefnogi'r cais cyn gynted a phosibl.

### Pont Rhydycroesau, ger Plas Talhenbont

Y Clerc wedi derbyn dau ymholiad gan drethdalwyr, yn son fod y bont wedi cael ei tharo gan lori fawr 'artic', a oedd yn mynd i Talhenbont. Gwelwyd lori arall debyg wedyn yn methu pasio dros y bont, a oedd eto'n mynd i Talhenbont, ond yn methu troi i fyny'r allt oherwydd fod y lon yn gul ac anaddas i gerbydau o'r fath.

Mae arwydd ger Lodge Gwynfryn yn barod, yn dweud nad yw'r lon yn addas i loriau. Mae coeden fawr hefyd bron a syrthio ar draws y lon – ar yr allt o'r bont i gyfeiriad Llanystumdwy. Y Clerc wedi anfon llythyr a lluniau i Cyngor Gwynedd ac wedi trafod y mater dros y ffon. Mae'r bont wedi cael ei thrwsio erbyn hyn a'r gwaith ar y lon yn dechrau ar 03.06.19.

### Pencaenewydd/Sardis

#### Llangybi

- Twll drwg yn y ffordd ger Fron Sinai - mae'n bosib mai cyfrifoldeb Dwr Cymru ydyw- **wedi cael ei lenwi rwan.**
- Gwastraff yn colli o loriau ail-gylchu - yn enwedig ar y ffordd mwyaf gwledig- **Clerc wedi anfon llythyr i gwyno.**
- Oedi hir neu neb yn ateb y ffon yng Nghanolfan Iechyd Cricieth ar rai adegau.- **Clerc wedi anfon llythyr at y Ganolfan Iechyd i holi.**
- Cwynion gan fwy nac un am swn awyren fechan sydd fel pe bai yn ymarfer hedfan a phlymio i lawr uwchben Llangybi/Pencaenewydd am oriau am ddyddiau rwan ac yn y man ers wythnosau. Cred rhai mai o Faes Awyr Caernarfon y daw, ac y dylai ymarfer yma ac acw er tegwch. **Y Clerc am wneud ymholiadau hefo Maes Awyr Caernarfon.**

**Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor Un Llais Cymru** a gynhelir am 7y.h. ar nos Fercher 19 Mehefin 2019, yn yr Institiwt, Allt y Pafiliwn, Caernarfon. Cais i wneud yn siwr bydd cynrychiolydd/wyr enwebedig eu cynghorau wedi derbyn eu papurau, ac yn gallu bod yn bresennol.

### Materion Ariannol

11. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

#### **12. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2019 ymlaen: trafod prisiau sydd wedi cyrraedd.**

Y Clerc wedi rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon, mis Mai 2019, hefo dyddiad cau 31ain o Fai 2019.

- a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
- b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
- c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
- ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
- d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
- dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

f. Cytundeb torri Cae Chwarae Llanybi (*cytundeb wedi ei wneud llynedd am 3 mlynedd o 2018*).

g. Cadw safle bed D.Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor, - Mr Gareth Jones, Caeathro wedi cytuno i wneud y gwaith am £250.00 eto eleni.

Llwybrau rhwng rhwng 'a - dd'-y Clerc wedi anfon llythyr at y contractwyr isod, ac i ofyn wrthynt gynnig pris am wneud y gwahanol lwybrau am y flwyddyn, a phris arwahan ar gyfer gwneud contract am 3 mlynedd, ac i gynnwys ei tsysgrif yswiriant cyfredol i wneud y math yma o waith.

Atkins Groundworks Ltd., Llanarmon;

Mr Clifford Hughes, Llanybi;

Criccieth Cleaning Ltd., Cricieth;

Trefn, Llanystumdwy;

Mr Emyr Jones, Glanfa, Llanybi,

Mr D.E. Williams, Encil y Coed, Llithfaen.

### **O Ddrws i Drws**

Cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa leol. Y Cyngor wedi cytuno i roi £500.00 i O Ddrws i Ddrws am flwyddyn gyfan, er mwyn iddyn nhw allu cludo pobl i'r feddygfa. Bydden nhw wedyn yn gofyn i'r teithiwr am, £2 y pen. Yn ystod y flwyddyn beilot byddent yn cadw cofnod o rif y defnyddwyr, unrhyw broblemau, neu unrhyw beth allent ei wneud yn well. Byddent hefyd yn gwybod erbyn diwedd y flwyddyn, faint yw cost gwirioneddol gwneud hyn.

Byddai pobl yn ffonio O Ddrws i Ddrws (gan roi 24 awr o rybudd os yn bosib) a byddai O Ddrws i Ddrws yn eu danfôn a dod a nhw adre.

**Y Clerc wedi cael gwybod y byddent yn gallu cludo defnyddwyr i Ysbyty Bryn Beryl a'r Feddygfa yng Nghricieth, ond ddim i Ysbyty Alltwen ar hyn o bryd.**

**Bydd y cynllun yn dechrau 01.06.2019, ac mae posteri wedi cael rhannu, a bydd y wybodaeth yn cael ei roi yn Y Ffynnon/Meddygfa Cricieth. Ysbyty Bryn Beryl neuaddau pentref a'r capeli lleol.**

**Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2018-19** - y Clerc wedi rhoi y dogfennau i'r Adran Archwilio, Cyngor Gwynedd, ac wedi derbyn Adroddiad yn nol ganddynt ar 30.05.2019, ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.2019.

Dyma beth godwyd gan yr Archwilwyr Mewnol:-

*"Barn yr Archwiliad. Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Llanystumdwy ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w liniaru:*

*Methiant i baratoi cyllideb flynyddol i gefnogi'r braesept.*

*Y Cyngor ddim yn cyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau (fel sydd yn ofynnol dan adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000), hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig ar y wefan."*

Gwnaiff y Clerc gysylltu hefo Ms Luned Fón Jones, Rheolwr Archwilio cyn y cyfarfod i drafod y materion yma.

13. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd Caernarfon	Llenwi 2 'fwlch' halen, sef Gwyddfôr, Chwilog a Bryn Beddau, Rhoslan	92.00	18.40	110.40 Anfoneb rhif 007950B0061614A B000081159	BACS
O Ddrws i Ddrws	Cynllun peilot am flwyddyn	500.00	-	500.00	BACS Cyfrif budd cymunedol
David Ogilvie Engineering	2 fainc a chludiant	1576.00	315.20	1891.20 (183624)	BACS

Cyflog mis Mai 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2019 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.40	<b><u>290.55</u></b>	101124
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mai 2019	362.00 x 20% = £72.40	<b><u>72.40</u></b>	101125
Costau'r Clerc Mai 2019	£25.47	<b><u>25.47</u></b>	101126